

# Pecyn gwybodaeth Cyfarwyddwyr newydd





Wyt ti'n angerddol am ddatblygu  
gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg  
a dwyieithog ar gyfer ein hysgolion?

# Coleg Cymraeg Cenedlaethol



## Gwahoddir ceisiadau am Gyfarwyddwr newydd i wasanaethu ar Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae hwn yn gyfle cyffrous i unigolyn sydd yn awyddus i ddefnyddio'i sgiliau a phrofiadau i ymuno â thîm sy'n arwain corff cynllunio cenedlaethol uchelgeisiol sydd â'r Gymraeg wrth wraidd ei bwrpas a'i weledigaeth.

Mae'r Coleg Cymraeg yn creu cyfleoedd hyfforddi ac astudio yn y Gymraeg drwy weithio gyda cholegau addysg bellach, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr. Ry'n ni'n ysbrydoli ac yn annog pawb i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg.

Nod y Coleg yw adeiladu system addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog sy'n agored i bawb ac i ddatblygu gweithluoedd dwyieithog.

Rydym yn chwilio yn benodol am unigolyn sydd â phrofiad o arwain yn strategol, sydd â phrofiad o gynlluniau i hyfforddi a datblygu'r gweithlu addysg, a/neu brofiad ymarferol a diweddar o'r sector ysgolion uwchradd.

Mae'r Coleg hefyd yn awyddus i sicrhau bod gennym Fwrdd sydd yn adlewyrchu poblogaeth Cymru gyfan. Byddwn yn croesawu yn enwedig geisiadau gan bobl ddu ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Bydd y penodiad yn cychwyn ym mis Mai 2023 am dymor o bedair blynedd, gyda'r cyfle i wasanaethu am dymor pellach o bedair blynedd.

## Gwybodaeth Gefndir

Mae'n cyfraniad ni tuag at wireddu targedau Cymraeg 2050 y Llywodraeth yn allweddol.

Gweledigaeth y Coleg yw fod y Gymraeg yn rhan o batrwm dysgu gydol oes pobl Cymru. Mae hon yn weledigaeth arloesol a fydd yn sicrhau fod y Coleg yn gwneud cyfraniad sylweddol at dargedau [Strategaeth Cymraeg 2050](#) yn y sector addysg ôl-orfodol.


Rydym yn gorff cynllunio strategol a chenedlaethol, gyda'r Gymraeg wrth wraidd ein pwrpas a'n gweledigaeth. Lansiwyd ein [Cynllun Strategol](#) pum mlynedd newydd ym mis Chwefror 2020; strategaeth a fydd yn adeiladu ar gyflawniadau'r Coleg ers ein sefydlu ac yn sail i raglen waith y Coleg dros y blynyddoedd nesaf.



## Y degawd cyntaf

Sefydlwyd y Coleg yn 2011 yn dilyn penderfyniad polisi Llywodraeth Cymru i greu sefydliad cenedlaethol i gynllunio a chydlynu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y prifysgolion, gan weithredu ar sail yr egwyddor bod modd trin a thrafod unrhyw ddisgyblaeth academiaidd neu alwedigaethol yn y Gymraeg.

Mae cynnydd sylweddol wedi bod o safbwynt ystod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein prifysgolion dros y degawd diwethaf a bellach mae cymuned gref o ddarlithwyr ac addysgwyr cyfrwng Cymraeg yn gweithio yn ein prifysgolion ledled Cymru. **O ganlyniad i'r cynnydd yn y ddarpariaeth a'r nifer o ddarlithwyr ac addysgwyr, ers sefydlu'r Coleg mae cynnydd o dros 2,000 yn y nifer o fyfyrwyr llawn-amser sy'n astudio rhywfaint o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg a chynnydd o oddeutu 400 yn y nifer sy'n astudio traean neu ragor o'u cwrs gradd drwy gyfrwng y Gymraeg.** Nod y Coleg yw cynnal ac adeiladu ar y cynnydd hwn dros y cyfnod nesaf ac wrth i ni gychwyn degawd newydd mae gennym gynlluniau cyffrous i ddenu cynulleidfaoedd newydd at addysg uwch cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.



# Ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg



Yn dilyn adolygiad yn 2016/17, penderfynodd Llywodraeth Cymru i ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg i gynnwys y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau. Mae hyn yn cynnig cyfle arloesol i wreiddio'r Gymraeg mewn colegau addysg bellach ac mewn gweithleoedd ar draws Cymru i raddau nas welwyd o'r blaen.

Yn wahanol i'r sector addysg uwch, mae'r holl ddysgwyr a hyfforddai yn y sectorau hyn yn gynulleidfa darged i'r Coleg o'r dechrau ac felly mae'r cynlluniau sydd wedi eu datblygu yn seiliedig ar fodel cyfannol sydd yn darparu cyfleoedd hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg i bob dysgwr. O ystyried y niferoedd o ddysgwyr a hyfforddeion sy'n cofrestru bob blwyddyn yn y sector ôl-16, a'u cyswllt uniongyrchol â'r economi, cyflogaeth, gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau Cymru, mae cyfle euraidd i wneud cyfraniad sylweddol at gyrraedd targedau [Strategaeth Cymraeg 2050](#) yn ogystal â gwreiddu strategaethau Llywodraeth Cymru mewn meysydd eraill.

Ceir rhagor o wybodaeth am [waith y Coleg yn y sector ôl-16](#) ar wefan y Coleg.



Mae'r Coleg hefyd yn awyddus i sicrhau bod gennym Fwrdd sydd yn adlewyrchu poblogaeth Cymru gyfan.

# Materion strategol allweddol



Mae nifer o faterion allweddol a fydd yn effeithio ar y Coleg dros y blynyddoedd i ddod:

- **Polisi Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru**
- **Sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER)**
- **Y Ddeddf Addysg Gymraeg arfaethedig**
- **Yr angen i greu gweithluoedd dwyieithog, er enghraifft yn y meysydd Addysg, a Iechyd a Gofal Cymdeithasol**


# Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol



Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg yn cynnwys deuddeg o aelodau sy'n cael eu penodi drwy broses agored drwy hysbysebu. Cadeirydd y Bwrdd yw Dr Aled Eirug.

Mae'r Bwrdd yn darparu arweiniad a chyfeiriad i'r sefydliad trwy bennu cynlluniau, cytuno ar sut a ble y caiff adnoddau eu defnyddio, a thrwy adolygu cynnydd gwaith y Coleg, gan graffu ar sut y mae'n cael ei gyflawni. Mae'r Bwrdd yn cydweithio'n agos â'r Prif Weithredwr a'r rheolwyr wrth gyflawni ei rôl.

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i is-bwyllgorau sefydlog, sef:



Mae gan y Coleg dîm o staff canolog, wedi eu lleoli mewn swyddfeydd yng Nghaerfyrddin, Caerdydd, Aberystwyth a Bangor.

Rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod y nodau a'r amcanion a bennwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r llythyr grant blynyddol yn cael eu bodloni a bod y sefydliad yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn atebol. Yn gyfansoddiadol, y mae'r Coleg yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac mae hefyd wedi cofrestru fel elusen.


# Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Ceir mwy o fanylion am y Coleg, gan gynnwys y canlynol, ar ein [gwefan](#):

- [Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu](#);
- [Adroddiad Blynnyddol y Coleg](#);
- [Cynllun Strategol y Coleg](#);
- [Y Cynllun Academaidd Addysg Uwch](#);
- [Y Cynllun Gweithredu Addysg Bellach](#);
- Gwybodaeth am y [Bwrdd Cyfarwyddwyr](#) a'i is-bwyllgorau;
- Gwybodaeth am [grantiau a chynlluniau cefnogi prosiectau](#), cynllun y [Darlithwyr Cysylltiol](#), y [Cynllun Gwreiddio](#), a gweithgareddau cynllunio academaidd y Coleg;
- Gwybodaeth am [ysgoloriaethau israddedig](#) ac [ysgoloriaethau ymchwil ôl-raddedig](#) y Coleg;
- Manylion am gynlluniau [aelodaeth y Coleg](#).

Cyfarwyddwyr presennol y Coleg yw:

|                              |                       |                         |                  |                          |               |
|------------------------------|-----------------------|-------------------------|------------------|--------------------------|---------------|
| Dr Aled Eirug<br>(Cadeirydd) | Gwilym<br>Dyfri Jones | William<br>Callaway     | Pedr<br>ap Llwyd | Linos<br>Roberts         | Nia<br>Elias  |
| Angharad<br>Lloyd Williams   | Meri<br>Huws          | Yr Athro<br>Anwen Jones | Ann<br>Beynon    | Yr Athro<br>Enlli Thomas | Rhys<br>Evans |



Wyt ti'n arweinydd gyda phrofiad  
o lywodraethiant effeithiol a  
dealltwriaeth o fydd addysg?

# Gofynion profiad ac arbenigeddau



Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gallu diwallu ei gyfrifoldebau'n gywir ac yn effeithiol, y mae disgwyl i'r corff o Gyfarwyddwyr ddod ag amrywiaeth o sgiliau a phrofiad i'r Bwrdd. Mae gan y Cyfarwyddwyr presennol gyfoeth o brofiad rhyngddynt mewn nifer o feysydd, gan gynnwys ym maes addysg uwch ac addysg bellach.

Mae'r Coleg yn ymrwymedig i gefnogi cynllun Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Gweithlu Cymraeg mewn Addysg, ac felly rydym yn chwilio i benodi Cyfarwyddwr sydd â gwybodaeth a phrofiad o ddatblygu gweithlu ac o faes addysg gychwynnol athrawon. Rydym hefyd yn awyddus i wella a chryfhau dilyniant rhwng cyfnodau allweddol dysgu yn y gyfundrefn addysg, ac felly croesewir ceisiadau hefyd oddi wrth unigolion sydd â phrofiad ymarferol a diweddar o'r sector addysg uwchradd, ac yn enwedig ysgolion sydd â chweched dosbarth.

Rydym felly yn chwilio am unigolyn sydd:

- yn gallu arwain yn strategol ar lefel uchel;
- â phrofiad o hyfforddi a datblygu'r gweithlu addysg;
- a/neu brofiad ymarferol a diweddar o'r sector addysg uwchradd.

Mae'r Coleg hefyd yn awyddus i sicrhau bod gennym Fwrdd sydd yn adlewyrchu poblogaeth Cymru gyfan a byddwn yn croesawu ceisiadau gan unigolion o ystod eang o oeddrannau, ardaloedd daearyddol, cefndiroedd a chymunedau amrywiol. Byddwn yn croesawu ceisiadau gan bobl ddu ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn benodol.

# Manyleb rôl Cyfarwyddwr



Mae rôl Cyfarwyddwr yn cynnwys:

- Paratoi ar gyfer, a mynychu, pob cyfarfod o'r Bwrdd a chyfrannu at, a bod yn rhan o, benderfyniadau allweddol yn ymwneud â strategaeth y Coleg;
- Gweithio'n agos â'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wrth roi cyngor ac anogaeth i'r Coleg mewn perthynas â llunio, datblygu a gweithredu polisi a chyflawni ei gyfrifoldebau a'i amcanion;
- Rhoi cyngor awdurdodol ac amserol i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn ôl y gofyn rhwng cyfarfodydd;
- Fel aelodau unigol, cadeirio neu fod yn aelodau o bwyllgorau sefydlog y Bwrdd a'r Coleg yn ôl yr angen;
- Cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd a'i bwyllgorau, a chynnal safonau uchaf llywodraethu corfforaethol, unplygrwydd a thegwch;
- Cyfrannu at sicrhau bod y Coleg yn gweithio'n effeithiol gyda a thrwy sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach Cymru a phob corff priodol arall.

# Manyleb Person



- Gallu i feddwl a gwneud penderfyniadau yn strategol ar draws ystod eang o faterion cymhleth, yn ogystal â gallu gweithio'n dda fel tîm er mwyn cynorthwyo i gyflawni penderfyniadau y cytunir arnynt;
- Gallu cyfathrebu'n dda ar lefel Bwrdd;
- Ymrwymiad i sicrhau gwasanaeth o'r ansawdd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd uchaf;
- Dealltwriaeth o addysg ôl-orfodol cyfrwng Gymraeg;
- Gallu cysylltu'r ddealltwriaeth honno am addysg ôl-orfodol yn ehangach ag anghenion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru, ac â buddiannau'r iaith Gymraeg ac anghenion unigolion, cymunedau a chyflogwyr;
- Ymrwymiad dangosadwy i Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Nolan) a dealltwriaeth glir ac ymrwymiad i faterion cydraddoldeb a pharodrwydd i herio gweithdrefnau gwahaniaethol;
- Ymrwymiad i weithredu er budd y Coleg yn gyntaf, a rhoi unrhyw rwymedigaethau neu ddiddordebau eraill sydd ganddynt yn ail wrth iddynt weithredu eu dyletswyddau fel Cyfarwyddwr o'r Coleg;
- Ymrwymiad i nodau'r Coleg o ddatblygu a chynyddu darpariaeth addysg ôl-orfodol drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gefnogol i ethos y Coleg fel sefydliad sydd yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Amser i ymrwymo yn llawn i'w rôl fel Cyfarwyddwr o'r Coleg, yn cynnwys paratoi ar gyfer a mynychu cyfarfodydd.



Am ragor o wybodaeth cer i  
[www.colegcymraeg.ac.uk/cyfarwyddwrnewydd](http://www.colegcymraeg.ac.uk/cyfarwyddwrnewydd)

# Manylion eraill



## Tymor y penodiad

7 Mai 2023 – 16 Mai 2027. Penodir Cyfarwyddwyr am gyfnod o bedair blynedd, gyda'r posibilrwydd o wasanaethu am un tymor pellach.

## Ymrwymiad o ran amser

Disgwylir y bydd angen i Gyfarwyddwyr neilltuo'r hyn sy'n cyfateb yn fras i oddeutu un diwrnod y mis i'r Coleg.

## Iaith weithredol y Coleg

Cymraeg yw iaith weithredol y Coleg. Cynhelir holl gyfarfodydd y Coleg yn y Gymraeg, gan ddarparu cyfleusterau cyfieithu-ar-y-pryd, yn ogystal â phapurau perthnasol yn y Saesneg pan fydd angen. Byddai'r Coleg yn croesawu ceisiadau gan bobl nad sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd.


## Cydnabyddiaeth a Threuliau

Rôl ddi-dâl yw hon. Fodd bynnag, byddwch yn gallu hawlio treuliau teithio a threuliau rhesymol eraill a all godi wrth wneud gwaith ar ran y Coleg.

## Datgan buddiannau

Dylai ymgeiswyr ddatgan unrhyw fuddiannau personol, proffesiynol neu fusnes a all ddylanwadu ar eu barn wrth gyflawni rôl Cyfarwyddwr o'r Coleg.

# Gwneud Cais



Croesewir ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn cael eu gweithredu a gwneir y penodiad ar sail teilyngdod.


Gofynnir i'r sawl sydd â diddordeb ymgeisio i gysylltu gyda Dylan Phillips, Ysgrifennydd y Coleg, erbyn **17 Mawrth 2023** (e-bost [d.phillips@colegcymraeg.ac.uk](mailto:d.phillips@colegcymraeg.ac.uk)) i drefnu sgwrs ffôn i drafod rôl Cyfarwyddwr ymhellach.

Dylid gwneud ceisiadau drwy lenwi'r [ffurflen gais](#) sydd i'w gweld ar wefan y Coleg, a dylai gael ei dychwelyd dros e-bost at [d.phillips@colegcymraeg.ac.uk](mailto:d.phillips@colegcymraeg.ac.uk).

Dylid hefyd llenwi a dychwelyd y ffurflen fonitro cyfle cyfartal.

Y dyddiad cau yw **12.00 ar ddydd Gwener, 24 Mawrth 2023**. Ni fydd ffurflenni cais a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

Cynhelir cyfweiliadau ar ddydd Mercher, **26 Ebrill 2023 yng Nghaerfyrddin**. Bydd y panel cyfweld yn cynnwys aelodau Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant y Coleg, dan gadeiryddiaeth Rhian Huws Williams. Disgwylir i'r rheiny y rhoddir gwahoddiad iddynt ddod i gyfweiliad ddangos sut y maen nhw'n bodloni'r gofynion a restrir yn y manylebau rôl a pherson drwy ddefnyddio enghreifftiau a thystiolaeth.



Coleg Cymraeg Cenedlaethol,  
Y Llwyfan, Heol y Coleg,  
Caerfyrddin, SA31 3EQ  
@colegcymraeg colegcymraeg.ac.uk

**CYMRAG**

